Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

# Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr mewn Ysgolion Uwchradd

Ffeithlen



## Trosolwg

Diben y ffeithlen hon yw cynnig trosolwg cryno, llawn gwybodaeth, o Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith mewn Ysgolion Uwchradd.

## Ynglŷn â'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith), dan arweiniad **Prifysgol Caerdydd**, yn bartneriaeth ymchwil polisi ac ymarfer a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gefnogir gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru**. Mae'r Rhwydwaith yn gweithio ar draws lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wella iechyd a lles dysgwyr. Rydym yn cynnig data gwerthfawr ar iechyd a lles i ysgolion, gan eu helpu i gynllunio a gwerthuso eu rhaglenni iechyd a lles.

A ninnau'n rhwydwaith cenedlaethol, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym yn gweithio gyda gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol. Mae gennym bartneriaeth â **Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles (WNHWPS)** i roi tystiolaeth ymchwil iechyd a lles ysgolion ar waith, gan helpu ysgolion a'u cefnogwyr i ddeall a defnyddio ymchwil iechyd i wella iechyd a lles dysgwyr.

## Ynglŷn ag Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith mewn Ysgolion Uwchradd

**Mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith mewn Ysgolion Uwchradd** yn gwella dealltwriaeth o iechyd a lles dysgwyr yng Nghymru ac yn cefnogi ymdrechion i wella iechyd a lles dysgwyr yng Nghymru. Mae'r arolwg cynhwysfawr hwn, sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd, yn targedu dysgwyr 11 i 16 oed mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd gwladol. Trwy gasglu data manwl am amrywiol agweddau ar fywyd dysgwyr, mae'r arolwg yn cynnig cipolygon amhrisiadwy sy'n llywio polisïau iechyd a lles cyhoeddus, rhaglenni iechyd a lles ysgolion ac ymchwil academaidd.

Bydd casgliad data nesaf ysgolion uwchradd yn dechrau yn haf 2025.

Bydd y casgliad nesaf ar waith rhwng *** Medi a ** Rhagfyr 2025. Bydd y casgliad data hwn hefyd yn cynnwys Holiadur Amgylchedd yr Ysgol y Rhwydwaith.

## Sut mae'r Arolwg yn Grymuso Ysgolion â Data Iechyd a Lles a Datblygu Adnoddau a Pholisi

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn darparu nifer o adnoddau a buddion gwerthfawr i ysgolion gyda'r nod o wella iechyd a lles myfyrwyr.

Dyma rai agweddau allweddol:

- **Dangosyddion Cenedlaethol a Rhanbarthol**: Mae'r Rhwydwaith yn darparu data dienw cadarn ar iechyd a lles dysgwyr i randdeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol trwy ddangosfyrddau ac adroddiadau. Mae'r data hwn yn helpu llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddeall problemau a thueddiadau iechyd allweddol at ddiben cynllunio, monitro a gwerthuso iechyd.

  Mae Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant Ysgolion Uwchradd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu data cynhwysfawr y Rhwydwaith ar iechyd a lles plant ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae'r offeryn rhyngweithiol hwn yn caniatáu i ddefnyddwyr archwilio tueddiadau mewn amrywiol ymddygiadau iechyd, fel gweithgarwch corfforol, lles meddyliol, bwlio ac arferion dietegol, ymhlith myfyrwyr 11 i 16 oed.

Am wybodaeth fanylach, ewch i dudalen we'r **dangosfwrdd**.

**Archwiliwch Ddata'r Rhwydwaith a'n Hadroddiadau Cenedlaethol** ar ein tudalen we bwrpasol.

- **Tystiolaeth Ymchwil**: Mae'r Rhwydwaith yn cynhyrchu tystiolaeth ymchwil newydd ar strategaethau gwella iechyd a lles effeithiol mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso ymyriadau ysgol gyfan a rhannu canfyddiadau gydag ysgolion a llunwyr polisi. Mae'r arolwg yn olrhain newidiadau yn iechyd a lles dysgwyr gydag amser, gan gynnig safbwynt hydredol am dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a phroblemau cyson.

- **Cyfnewid Gwybodaeth:** Mae'r Rhwydwaith yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth ac mae'n cynorthwyo â throi ymchwil yn ymarfer, gan ddarparu platfform ar gyfer cydweithredu rhwng ymchwilwyr, ysgolion a llunwyr polisi. Mae troi cyllid ymchwil yn fuddion yn y byd go iawn yn sicrhau bod ymchwil y Rhwydwaith yn cael ei defnyddio mewn ffyrdd ymarferol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi prosiectau sy'n cael effaith, cydweithredu â llunwyr polisi, creu seilwaith cefnogol a rhannu syniadau llwyddiannus yn eang. Trwy wneud hynny, rydym yn sicrhau bod canfyddiadau ymchwil yn cael eu cyfnewid a'u rhoi ar waith yn effeithiol, gan arwain at fuddion go iawn, fel gwell iechyd a lles, datrysiadau arloesol a pholisïau cyhoeddus gwell.

- **Cynllunio Gweithredu a Gwerthuso**: Mae ysgolion yn cael adroddiadau adborth teilwredig sy'n cefnogi hunanwerthuso a chynllunio gweithredu wedi'u harwain gan ddata. Mae hyn yn helpu ysgolion i ddatblygu a gweithredu strategaethau gwella iechyd a lles. Archwiliwch ein **hadroddiad enghreifftiol lefel ysgol**.

- **Hunanwerthuso ac Arolygiadau Ysgolion:** Mae ysgolion yn defnyddio data'r Rhwydwaith i hunanwerthuso ar gyfer **Estyn** trwy nodi anghenion iechyd a lles myfyrwyr, gosod blaenoriaethau a mesur effaith eu mentrau. Mae'r data hwn yn darparu tystiolaeth o ymdrechion ysgolion i hyrwyddo iechyd a lles, yn gyson â meini prawf Estyn.

- **Cefnogaeth ac Adnoddau**: Mae'r Rhwydwaith yn cynnig adnoddau wedi'u llywio gan dystiolaeth, fel gweminarau a briffiau ymchwil, i helpu ysgolion i ddeall a defnyddio'r ymchwil hon yn effeithiol.

- **Cydweithredu**: Mae'r Rhwydwaith yn meithrin cydweithredu rhwng ysgolion, ymchwilwyr a llunwyr polisi iechyd i gyd-gynhyrchu ymchwil ac ymyriadau o ansawdd uchel.

- **Hyrwyddo Llais y Myfyriwr:** Mae'r arolwg yn rhoi llwyfan i ddysgwyr rannu eu profiadau a'u safbwyntiau, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn trafodaethau am eu hiechyd a'u lles.

Darllenwch fwy am y buddion i ysgolion **yma**.

## Effaith Ehangach yr Arolwg a'r Defnydd Ohono

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, a sefydlwyd yn 2013, wedi dod yn elfen hanfodol ac unigryw o'r seilwaith iechyd a lles addysgol yng Nghymru. Trwy ddarparu cipolygon wedi'u harwain gan ddata, ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth, data cynhwysfawr ac adroddiadau manwl, mae'r Rhwydwaith yn cefnogi dull ysgol gyfan Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae'n cynnig datblygiad proffesiynol ac mae'n annog cydweithredu ymhlith ysgolion, ymchwilwyr a llunwyr polisi. Mae'r strategaeth gyfannol hon yn gwella iechyd a lles myfyrwyr ar draws cymuned gyfan yr ysgol.

Mae dros 30 o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y Rhwydwaith, gan gynorthwyo â chyflwyno a gwerthuso mentrau iechyd a lles. Mae enghreifftiau nodedig yn cynnwys **Y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd a Llesiant Meddyliol** ac **Adroddiad Iach a Hapus Estyn (2019).**

## Integreiddio'r Arolwg â Holiadur Amgylchedd yr Ysgol y Rhwydwaith

Mae Holiadur Amgylchedd yr Ysgol yn ategu Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith.

Mae'r Holiadur hwn yn cael ei ateb gan aelod o Dîm Arwain yr Ysgol ac mae'n archwilio amgylchedd ehangach yr ysgol, gan gynnwys polisïau, arferion ac ethos cyfan yr ysgol. O'i ddefnyddio ar y cyd ag Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith, mae Holiadur Amgylchedd yr Ysgol yn rhoi cyfle unigryw i ysgolion asesu iechyd a lles dysgwyr yng nghyd-destun polisïau ac arferion eu hysgol.

Darllenwch fwy am **Holiadur Amgylchedd yr Ysgol**.

## Cofrestru gyda'r Rhwydwaith a Chasglu Data

Mae'r Rhwydwaith yn anfon gwahoddiad trwy'r e-bost i brif gyfeiriad e-bost yr ysgol. Os nad yw ysgolion yn cael y gwahoddiad, gallant gysylltu â'r Rhwydwaith yn nhymor yr haf ym mhob blwyddyn gasglu trwy e-bostio **shrn@cardiff.ac.uk**.

## Adnoddau Ychwanegol

- **Darganfyddwch storïau llwyddiant ac astudiaethau achos ysgolion.**
- **Darllenwch ein cwestiynau cyffredin i rieni a gofalwyr.**
- **Gwyliwch ein hanimeiddiad byr.**
- **I gael rhagor o gipolygon, darllenwch dudalen ein Blog:**

- **Cefnogi Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant: Rôl y Rhwydwaith wrth Ddiwallu Anghenion Tystiolaethol**
- **Adeiladu Ysgolion Cryfach a Dysgwyr Iachach: Rôl y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yng Nghymru**
- **Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith: Golwg Gynhwysfawr ar Iechyd y Glasoed yng Nghymru**
- **Dyblu'r Weledigaeth, Dwbl yr Effaith: Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr SHRN a Holiadur Amgylchedd Ysgolion SHRN (SEQ).**


Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION
THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

**Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)**
SBARK, Heol Maendy, Caerdydd CF24 4HQ
**The School Health Research Network (SHRN)**
SPARK, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

shrn.org.uk